

CYFARFOD BLYNYDDOL CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWYD YN YSGOL LLANDDOGED , DYDD LLUN 20fed MAI, 2019.

PRESENNOL

Cyng. Eifion Williams (Cadeirydd), Cyng. Alun Morris, Cyng. Arwel Ll. Jones , Cyng. Nerys Dobson, Cyng. Hefin Martin, Cyng. John Owen, Cyng Austin Roberts, Delyth Algieri (clerc).

YMDDIHEURIADAU

Cyng. Michael Rayner

CADARNHAU COFNODION Y BLYNYDDOL 2018

Cadarnhawyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod Blynyddol yn 2018.

PENODI CADEIRYDD

Pasiwyd aelodau'r Cyngor drwy godi dwylo i benodi Cyng. Eifion Williams i barhau yn y gadair am flwyddyn arall yn dilyn ymadawiad Cyng Michael Rayer o'i swydd fel Is- Gadeirydd.

PENODI IS-GADEIRYDD

Pasiwyd aelodau'r Cyngor drwy godi eu dwylo i benodi'r Cyng. Arwel Lloyd Jones yn Is-gadeirydd ar gyfer y flwyddyn 2019/20.

PENODI IS-BWYLLGOR AELODAU LLWYBR CYHOEDDUS

Pasiwyd aelodau'r Cyngor drwy godi dwylo i benodi'r canlynol ar yr Is-bwyllgor Llwybrau Cyhoeddus
Cyng. Alun Morris
Cyng. Nerys Dosbson
Cyng. John Owen
Cyng. Eifion Williams

CYNRYCHIOLYDD O'R CYNGOR CYMUNED AR GYFARFODYDD A PHWYLLGORAU LLYWODRAETHWYR YSGOL GYNRADD LLANDDOGED

Pasiwyd aelodau'r Cyngor drwy godi dwylo i Cynghorydd Nerys Dosbson i barhau fel cynrychiolydd ar y cyfarfodydd pwyllgorau Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Llanddaged.

COD YMDDYGIAD

Cadarnhaodd aelodau'r Cyngor y Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n nodi safonau cywir o ymddygiad a ddisgwyllir gan gynghorwyr ac maent i gyd yn cytuno i gydymffurfio â'r Cod fel unigolion.

COFRESTR BUDDIANNAU

Cwblhawyd aelodau'r Cyngor y gofrestr buddiannau am y flwyddyn 2019/20.

POLISIAU A ASESIAID RISG

Trafodwyd a phasiwyd polisiau ac asesiadau risg y Cyngor.